# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER, 07.04.10 AM 7.15 YR HWYR YNG NGHANOLFAN WAUNFAWR, WAUNFAWR

**Presennol –** Cynghorwyr Eurig Wyn (Cadeirydd)
Gwilym O Williams
Edgar Owen
Pat Parry
Cadi Jones
Bryn Jones
Terry Parry
Clerc Shoned Rees Griffith

1 **Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

2 **Ymddiheuriadau -** Cyng C James, Cyng Lynne Brown, Cyng Alfie Jones,

3 **Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.**

3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

4 **Derbyn Cofnodion 24.02.10**

Y Cyng BJ yn cynnig fod y cofnodion yn gywir, y Cyng TP yn eilio.

5. **Materion yn codi o'r Cofnodion cyfarfod 24.02.10**

**Materion Caeathro**
LLinellau melyn – symud ymlaen y Cyng C James wedi cael cyfarfod gyda Cyngor Gwynedd materion dan sylw wedi eu sortio bellach. Gofynwyd y cwestiwn pwy fydd yn plismona'r llinellau melyn, Cyngor Gwyned? Cyng TP a PP yn croesawu'r llinnellau melyn yn ein pentrefi.

**Materion Waunfawr**

6 **Adroddiadau**

**a. Lloches Bws**
Gwaith plastro lloches bws gwaelod (ger yr hen bost) – mewn llaw Cyng GOW yn mynd i adrodd yn ol yn fuan.

**b. Pwyllgor y Fynwent ac Eiddo**
Angen cyfarfod yn fuan, angen sylw i'r mwsog eto ar y llwybrau yn y fynwent.

**c. Llwybrau Cyhoeddus**

Dim i'w adrodd.

**Ch. Gerddi Bach**

Cafwyd drafft o'r holiadur gan y Cyng EW. Neilltuwyd yr hawl dirprwyol i gario'n 'mlaen a'r holiadur i'r Is-Bwyllgor sef y Cyng EW, BJ, CJames a Mr Eurwyn Gruffudd. Cynnigwyd gan y Cyng EO ac eilwyd gan y Cyng Cjones.

## 7 Materion Cynllunio

### a. Ceisiadau newydd

| | Dyddiad Cofrestrwyd | Bwriad | Lleoliad | Rhif Cais | Statws y Cais |
|---|---|---|---|---|---|
| | 24.03.10 | Dymchwel y modurdy presennol a chodi modurdy newydd yn ei le | Llain o dir cyfagos i Eryl Cottage Caeathro | C10A/0146/26/LL | Dim gwrthwynebiad<br><br>Cwestiwn i Gyngor Gwynedd : a yw'r disgrifiad yn un gywir - modurdy newydd neu ystorfa gwaith ?<br><br>Amodau :<br>- to llechi Cymreig<br>- diogelu'r coeden mawr ar derfyn y tir |

### b. Ceisiadau wedi eu cymeradwyo gan Cyngor Gwynedd

| Dyddiad Cofrestrwyd | Bwriad | Lleoliad | Rhif Cais | Statws y Cais |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

## 8 Gohebiaeth i'w drafod

Cyngor Gwynedd - Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd - Penderfynwyd cael cyfarfod arbennig i'w drafod ymhellach 28.04.10

Cyngor Gwynedd – Arolwg E-Lywodraeth

Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru – Fforwm Gymunedol Awdurdod yr Heddlu Gwynedd

Cyngor Gwynedd – Arosfa Bws

Un llais Cymru – Aelodaeth am y flwyddyn 2010/11 – Cynnigwyd gan y Cyng PP ac eilwyd gan y Cyng EO

Adroddwyd ar lafar gan y Cyng GOW gan ei fod eisiau gadael y cyfarfod yn gynnar ar yr eitemau canlynol –

Nodwyd fod nifer o achosion wedi bod yn y pentref yn ddiweddar gyda'r heddlu.

14 Bryn Golau – wedi mynd a un o'r ceir wedi rhoi mis o rybudd dim trwydded.

Ffenestri Ganolfan wedi cael eu torri yn ddiweddar neb yn cymryd y bai.

**Ffordd Osgoi Bontnewydd**

Cafwyd trafodaeth hir ar y gwahanol gynnigion sydd i'r ffordd Osgoi Bontnewydd. Nodwyd fod cyfarfod wedi bod yng Nghaeathro a ndowyd sylwadau y Cyng CJames fod y mwyafrif o'r trigolion yn erbyn y cynllun brown, on o blaid y cynllun melyn a'r porffordd.

Cyflwynwyd gynllun gyda un cynnig wedi ei farcio mewn du sydd yn welliant i'r hyn mae'r Cynulliad yn ei gynnig. Cynnigwyd gan y Cyng BJ ein bod yn ei anfon ymlaen atynt fel gwelliant ac eilwyd gan y Cyng PP.

Cyng TParry i ddod a'r cynlluniau a'r manylion i'r clerc er mwyn ymateb.

## 9 Mantolen 2009/10

Cynnigwyd fod y mantolen 2009/10 yn gywir gan y Cyng PP ac eilwyd gan y Cyng BJ

## 10 Materion Ariannol

**10.1 Arian wedi ei dalu allan**

| | |
|---|---|
| Cyflog Clerc Mawrth | £260.00 |
| Inc ar gyfer argraffu i'r Clerc | £34.95 (i'w dalu gyda cyflog mis Mawrth) |

**10.2 Arian a dderbyniwyd**

| | |
|---|---|
| Cyngor Gwynedd | £710.00 |

**10.3Anfonebau i'w talu**

| | |
|---|---|
| Cyflog Clerc Ebrill | £260.00 |
| Mr B Jones | £36.00 |
| Mr B Owen | £36.00 |
| Mr H Jones | £36.00 |

## 11 Grantiau / Rhoddion

| | |
|---|---|
| Clwb Merched, Caethro | £100.00 |
| Clwb Sul Croes y Waun | £200.00 |
| Capel Ceathro (fynwent) | £150.00 |
| Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro | £200.00 |
| Eisteddfod Genedlaethol Cymru | £50.00 |
| Urdd Gobaith Cymru | £50.00 |
| Radio Ysbyty Gwynedd | £25.00 |
| Ysgol Waunfawr | £250.00 |
| Pwyllgor Llwybrau (2il siec) | £250.00 |

**12 Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf**

Nos Fercher, 28 o Ebrill, 2010 am **7.15** yr hwyr yng Nghanolfan Waunfawr – cyfarfod Arbennig
Nos Fercher, 26 o Fai, 2010 am **7.15** yr hwyr yng Nghanolfan Waunfawr.

**13 Materion Aelodau.**

**Y Cyng EW** – Dim
**Y Cyng CJones** –Dim.
**Y Cyng PP** - Dim.
**Y Cyng EO** – Dim.
**Y Cyng GOW** – wedi adrodd ar lafar cyn gadael y cyfarfod- wedi eu nodi o dan Gohebiaeth.
**Y Cyng BJ** – Dim
**Y Cyng Tparry** - Dim